# Polisi Ymddeol Hyblyg a Graddol

Rheoli Pobl

Ionawr 2020

## Cyflwyniad

Rydym ni (Cyngor Sir Caerfyrddin) wedi ymrwymo i roi mwy o ddewis a hyblygrwydd i chi (ein gweithwyr) os byddwch yn dymuno symud tuag at ymddeoliad graddol, neu aros yn y gwaith wedi'r Oedran Pensiwn Arferol, gan sicrhau bod eich cyfnod pontio o fywyd gwaith i'ch ymddeoliad yn bleserus.

Rydym yn cydnabod bod denu a chadw gweithlu hyfforddedig, brwdfrydig a hyblyg, o oedran cymysg, ag ystod eang o sgiliau a phrofiad, yn hanfodol i ddarparu gwasanaethau o ansawdd.

Mae'r polisi hwn yn nodi sut y gallwch weithio gyda'ch rheolwr i sicrhau hyblygrwydd wrth i chi agosáu at ymddeol.

Yn unol â'r ddeddfwriaeth, nid ydym wedi pennu oedran ymddeol gorfodol ar gyfer ein gweithwyr ers 1 Hydref 2011.

### Cwmpas

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i'r holl weithwyr sy'n aelodau gweithredol o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL) ond nid yw'n cynnwys staff cymorth ac athrawon a gyflogir mewn ysgolion a reolir yn lleol, lle bydd y corff llywodraethu'n pennu'r polisi, nac ychwaith athrawon digyswllt nad ydynt yn aelodau gweithredol o'r Cynllun Pensiwn Athrawon.

Dylai athrawon digyswllt sy'n aelodau gweithredol o'r Cynllun Pensiwn Athrawon (CPA) gyfeirio at yr adran o'r polisi sy'n berthnasol iddynt.

Yn ogystal, dylid darllen y polisi hwn ar y cyd â Pholisi Disgresiwn y Cyflogwr.

Dylid ei ddarllen hefyd ar y cyd â'n Polisi Adleoli sy'n cynnig cymorth i weithwyr sydd mewn perygl o golli eu gwaith.

Os nad ydych yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol na'r Cynllun Pensiwn Athrawon ac rydych yn dymuno cyflwyno cais am leihau oriau gwaith, gweler ein Polisi Gweithio Hyblyg.

## Pwyntiau Allweddol

- Mae ymddeoliad hyblyg/graddol yn ddull cynlluniedig o ran ymddeol sy'n golygu gweithio llai o oriau a/neu symud i swydd ar radd is yn wirfoddol ac, ar yr un pryd, yn caniatáu mynediad at fuddion pensiwn a gronnwyd.

- Nid oes hawl awtomatig i chi weithio llai o oriau neu ar radd is, wrth dderbyn buddion pensiwn. Fodd bynnag, bydd yr holl geisiadau o'r fath yn cael eu hystyried mewn modd rhesymol.

- Mae'n angenrheidiol cael y gymeradwyaeth berthnasol, yn unol â'n gweithdrefn ar gyfer Achosion Busnes dros Ymddeol.

- Os ydych wedi bod yn aelod gweithredol o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol/Cynllun Pensiwn Athrawon am o leiaf **2 flynedd** neu os ydych wedi trosglwyddo hawliau pensiwn blaenorol i mewn i'r cynllun, gallwch ystyried y posibilrwydd o Ymddeoliad Hyblyg/Graddol.

- Gallwch dderbyn eich buddion pensiwn Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol/Cynllun Pensiwn Athrawon yn wirfoddol heb leihad pan fyddwch yn cyrraedd Oedran Pensiwn Arferol.

- Mae'n rhaid i chi geisio ein cytundeb i godi eich buddion pensiwn yn 55 oed, fan gynharaf, wrth barhau i weithio llai o oriau neu symud i swydd ar gyflog is.

- Rhaid codi buddion pensiwn un diwrnod cyn cyrraedd 75 oed, fan hwyraf.

- Darperir canllawiau ynghylch y rheol 85 mlynedd ar gyfer aelodau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn **Atodiad 1**.

- Darperir canllawiau ynghylch ymddeol yn raddol ar gyfer aelodau'r Cynllun Pensiwn Athrawon yn **Atodiad 2**

## Beth yw'r Oedran Pensiwn Arferol?

At ddibenion y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol mae'r Oedran Pensiwn Arferol yr un fath ag Oedran Pensiwn y Wladwriaeth, ond mae rheoliadau'r cynllun hwn yn cynnwys dewisiadau eraill o ran ymddeol yn gynnar neu barhau i weithio. Gallwch gael golwg ar eich oedran pensiwn y wladwriaeth drwy fynd i wefan y llywodraeth: [www.gov.uk/calculate-state-pension](http://www.gov.uk/calculate-state-pension)

Ceir esboniad o'r Oedran Pensiwn Arferol at ddibenion y Cynllun Pensiwn Athrawon yn **Atodiad 2**, oherwydd y newidiadau i'r cynllun a fydd yn dod i rym ar 1 Ebrill 2015.

### Beth yw ymddeoliad hyblyg/graddol?

Mae ymddeoliad hyblyg/graddol yn eich galluogi i dderbyn eich pensiwn o dan y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol/Cynllun Pensiwn Athrawon (gall y pensiwn gael ei leihau yn actiwaraidd) a symud tuag at ymddeol fesul cam drwy:

- leihau eich oriau gwaith a/neu
- symud i swydd ar gyflog is

Fel arall, gallwch wneud cais am barhau i weithio llai o oriau neu ar radd is a phenderfynu peidio â derbyn unrhyw fuddion pensiwn tan yr Oedran Pensiwn Arferol, ac yna ni fyddai’r pensiwn yn cael ei leihau yn actiwaraidd.

### Beth yw manteision y polisi ymddeoliad hyblyg/graddol?

Dyma newid o ymddeol ar ôl oedran penodedig i ddull mwy hyblyg o lawer, fel bod modd i chi gynllunio'n ariannol ac yn gymdeithasol, ac ymaddasu’n raddol o fyd gwaith i ymddeoliad.

Mae hefyd yn fuddiol i ni gan y gallwn gadw staff profiadol â sgiliau gwerthfawr a galluogi gwell cynllunio ar gyfer olyniaeth.

**Pwy sy'n gymwys ar gyfer ymddeoliad hyblyg/graddol**

Os ydych yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol/Cynllun Pensiwn Athrawon, gallwch gysylltu â'ch rheolwr llinell i drafod cais am ymddeoliad hyblyg/graddol ar ôl cyrraedd 55 oed.[1] Bydd yn bwysig i chi ystyried eich patrwm gweithio arfaethedig, sut y bydd y newid yn effeithio arnoch yn ariannol, gan gynnwys eich buddion pensiwn a'r effaith y gallai eich cais ei chael ar y gwasanaeth. Bydd yn helpu'ch rheolwr os byddwch yn cynnwys yn eich cais unrhyw ateb i unrhyw effaith negyddol posibl ar ddarpariaeth y gwasanaeth o ganlyniad i ganiatáu lleihad yn yr oriau gwaith/gradd.

Mae eich rheolwr llinell yn gyfrifol am ystyried cais am ymddeoliad hyblyg/graddol yn ofalus a rhoi sylw i sut y gellir caniatáu'r cais am ymddeoliad hyblyg/graddol a'r patrwm gweithio a ddymunir o fewn y swyddogaeth neu'r maes gwasanaeth penodol. Os na ellir cefnogi'r cais dylai eich rheolwr llinell drafod dewisiadau eraill gyda chi a all fod yn dderbyniol i'r ddwy ochr.

Os gellir cefnogi'r cais mae'n rhaid i'ch rheolwr llinell lunio achos busnes dros ymddeol i'w gymeradwyo mewn perthynas â:

- lleihau oriau a/neu weithio ar radd is; a
- thalu'r buddion pensiwn yn gynnar.

Dylai'r achos busnes gynnwys manylion ynghylch yr effaith ar ddarpariaeth y gwasanaeth a'r budd i'r Adran, yn ogystal â'r budd i chi, ac unrhyw gostau cysylltiedig. Rhaid bodloni'r meini prawf canlynol:

- Rhaid eich bod yn cael eich cyflogi gennym ar gontract cyflogaeth parhaol; ac
- Yn achos aelodau o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol argymhellir y dylid torri o leiaf 20% ar yr oriau neu weithio ar radd is. Byddwn yn ystyried yr holl geisiadau gan roi sylw i'r holl faterion ariannol a materion darparu gwasanaethau fesul achos.
- Yn achos aelodau o'r Cynllun Pensiwn Athrawon, cyfeiriwch at **Atodiad 2**.

Ym mhob achos, gan gynnwys achosion lle byddwch yn gofyn am leihau eich oriau'n raddol dros gyfnod o amser, dylai'r achos busnes gynnwys manylion y lleihau oriau arfaethedig; dyddiadau lleihau'r oriau a'r dyddiad ymddeol terfynol arfaethedig, a hynny o'r dechrau'n deg. Y rheswm dros hyn yw sicrhau cynllunio ar gyfer olyniaeth.

Os yw cais am ymddeoliad hyblyg/graddol a'r achos busnes dilynol yn dangos cost i ni, mae'n rhaid i'r achos busnes nodi'n glir y gost a'r manteision i'r gwasanaeth o gydsynio i'r cais. Mae eich rheolwr yn gyfrifol am sicrhau bod yr achos busnes yn darparu'r holl wybodaeth sy'n ofynnol.

---

[1] Dylai gweithwyr nad ydynt yn aelodau o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol/Cynllun Pensiwn Athrawon gyfeirio at y Polisi Gweithio Hyblyg

Nid oes cyfnod treialu ar gyfer ymddeoliad hyblyg yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ac, unwaith y cytunir arno, ni ellir gwrthdroi'r penderfyniad, oherwydd yr effaith uniongyrchol ar y buddion pensiwn. Ni ellir gwrthdroi'r penderfyniad i leihau nifer yr oriau tra bydd y gweithiwr yn yr un swydd.

Mae'n rhaid i ymddeoliad graddol o dan reolau'r Cynllun Pensiwn Athrawon bara am isafswm o 12 mis.

**Amodau Gwasanaeth**

Os byddwch yn lleihau eich oriau yn yr un swydd, cedwir holl amodau eich contract cyflogaeth, ar sail pro rata ac yn rhan-amser, gan gynnwys cydnabod gwasanaeth parhaus at ddibenion gwyliau blynyddol a thâl salwch, ac ar gyfer hawliau cyflogaeth, megis taliadau dileu swydd.

Os byddwch yn dechrau swydd newydd, byddwch yn derbyn contract cyflogaeth newydd a, chyhyd â bod eich gwasanaeth mewn llywodraeth leol yn barhaus heb doriad, bydd hyn yn cael ei gydnabod at ddibenion gwyliau blynyddol a thâl salwch, ac ar gyfer hawliau cyflogaeth, megis taliadau dileu swydd.

**Goblygiadau ariannol ymddeoliad hyblyg/graddol**

Bydd y pensiwn blynyddol a chyfandaliad y grant ymddeol (os yw'n berthnasol) yn cael eu talu o ddyddiad dechrau'r ymddeoliad hyblyg/graddol a gellir cyrchu Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol os byddwch yn dewis gwneud hynny.

Ar ôl i chi ymddeol yn hyblyg, gallwch gyfrannu at y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn y swydd newydd, neu'r swydd ran-amser, a dechrau pensiwn ychwanegol a gyrchir pan fyddwch yn ymddeol yn derfynol. Mae'n bwysig nodi bod y cofnod pensiwn llywodraeth leol newydd yn groniad pensiwn ar wahân. Golyga hyn na fydd y gwasanaeth blaenorol (sy'n gysylltiedig â'r pensiwn y dechreuwyd ei dalu yn sgil ymddeoliad hyblyg) yn cael ei gyfrif yn wasanaeth a gronnwyd mewn perthynas â'r buddion diweddarach.

Os ydych yn ymddeol yn raddol o dan y Cynllun Pensiwn Athrawon, gweler **Atodiad 2**.

Rydych yn gyfrifol am geisio eich cyngor ariannol annibynnol eich hunain, oherwydd na all y Cyngor gynnig hyn, ond gall y wybodaeth ganlynol fod yn ddefnyddiol:

- Effaith ymddeoliad hyblyg/graddol fydd lleihau'r cyflog, a bydd buddion pensiwn yn cael eu talu yn ei le yn rhannol. Gan ddibynnu ar lefel y lleihad yn y cyflog a swm y buddion pensiwn a gronnwyd, gall lefel gyffredinol yr incwm a dderbynnir yn ystod cyfnod yr ymddeoliad hyblyg/graddol, neu ar y dyddiad ymddeol o'r Cyngor yn y pen draw, fod yn llai na'r hyn a dderbynnir drwy barhau i weithio yn y contract gwreiddiol tan oedran pensiwn arferol y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol/Cynllun Pensiwn Athrawon, neu wedi hynny;

- ystyrir y pensiwn yn incwm trethadwy ac, felly, gellir tynnu treth incwm ohono, yn yr un ffordd â'ch cyflog;

- pan fyddwch yn cyrraedd oedran pensiwn y wladwriaeth, efallai bydd gennych hawl i dderbyn buddion pensiwn y wladwriaeth, ar ben eich buddion o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol/Cynllun Pensiwn Athrawon. Cynghorir i chi geisio cyngor gan yr adran berthnasol o'r Llywodraeth.

**Lleihau'r pensiwn a'r goblygiadau**
Mae swm y buddion pensiwn a roddir o dan y cynllun ymddeoliad hyblyg/graddol yn cael ei gyfrifo yn yr un ffordd ag ar gyfer ymddeol yn gynnar yn wirfoddol (y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol) neu fuddion wedi'u newid yn actiwaraidd (y Cynllun Pensiwn Athrawon). Bydd buddion pensiwn yn llai os derbynnir hwy cyn oedran pensiwn arferol tybiedig y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol neu'r Cynllun Pensiwn Athrawon.

Gallwch barhau yn y cynllun pensiwn a chronni ail bensiwn (yn achos y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol) neu barhau i gronni gwasanaeth pensiynadwy ychwanegol (yn achos y Cynllun Pensiwn Athrawon) yn seiliedig ar yr oriau llai neu'r radd is. Bydd y buddion hyn yn cael eu talu heb eu lleihau yn actiwaraidd pan fyddwch yn cyrraedd yr oedran pensiwn arferol, neu unrhyw bryd wedi hynny pe byddwch yn dewis parhau i weithio y tu hwnt i'r oedran pensiwn arferol, ond rhaid eu cyrchu o leiaf 1 diwrnod cyn eich pen-blwydd yn 75 oed. Byddwch yn derbyn yr holl fuddion pensiwn, megis ymddeol oherwydd salwch a marw yn y swydd. Gallwch hefyd brynu Cyfraniadau Pensiwn Ychwanegol neu dalu Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol.

**Hepgor y lleihad yn y pensiwn**
Mae rheoliadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn caniatáu disgresiwn i gyflogwyr hepgor y lleihad yn y pensiwn. Bydd hyn yn bosibl o dan **amgylchiadau eithriadol** yn unig yn unol â Pholisi Disgresiwn y Cyflogwr. Mae'n rhaid i'ch rheolwr gael cyngor gan y tîm Adnoddau Dynol cyn bwrw ymlaen ag unrhyw gais am ymddeoliad hyblyg lle bwriedir i ni ysgwyddo cost y lleihad yn y pensiwn. Rhaid i'r rhesymau dros wneud hynny gael eu nodi'n glir yn yr Achos Busnes.

Os byddwn yn cytuno i hepgor y lleihad yn y pensiwn ac y cymeradwyir y cais am ymddeoliad hyblyg, ac os byddwch yn ymddiswyddo wedi hynny; yn cynyddu eich oriau gwaith yn wirfoddol neu'n gwneud cais am swydd arall yn yr Awdurdod cyn y dyddiad ymddeol y cytunwyd arno, rydym yn cadw'r hawl i adennill gennych gostau llawn y straen a roddwyd ar y gronfa bensiwn.

**Gweithdrefn ar gyfer Ceisiadau Ymddeoliad Hyblyg**
Prosesir ceisiadau fel a ganlyn:
- gallwch weld y wybodaeth ddiweddaraf am eich pensiwn drwy fynd i www.cronfabensiwndyfed.org.uk neu www.teacherspensions.co.uk;
- byddwch yn cyflwyno cais ffurfiol yn ysgrifenedig i'ch rheolwr llinell, gan nodi'r lleihad yn yr oriau neu'r radd y gwneir cais amdano a'r dyddiadau arfaethedig;
- bydd eich rheolwr llinell yn trefnu amser sy'n gyfleus i'r ddau ohonoch er mwyn trafod y cais gyda chi;

- bydd eich rheolwr llinell yn cadarnhau a ellir cefnogi'r cais yn amodol ar gymeradwyo'r Achos Busnes dros Ymddeoliad Hyblyg;
- bydd eich rheolwr llinell yn cysylltu â'r Tîm Adnoddau Dynol i gael y ffigurau pensiwn straen actiwaraidd ar gyfer yr achos busnes ac yn rhoi'r union ffigurau i chi;
- byddwch yn cadarnhau â'ch rheolwr llinell os byddwch yn dymuno bwrw ymlaen â'ch cais ar ôl gweld y ffigurau;
- bydd eich rheolwr llinell yn cwblhau'r Achos Busnes dros Ymddeoliad Hyblyg ac yn ei gyflwyno i'ch Pennaeth Gwasanaeth neu'ch Cyfarwyddwr i'w gymeradwyo yn unol â'r Canllawiau ynghylch Llunio Achos Busnes dros Ymddeol.

Ar ôl cymeradwyo'r cais

- <u>am leihau'r oriau gwaith:</u> rhaid i'ch rheolwr llinell gysylltu â'r Tîm Gwasanaethau Gweithwyr Adnoddau Dynol i gadarnhau'r newid yn yr oriau gwaith a'r dyddiad cychwyn;
- <u>am leihau'r radd:</u> dylech ymgeisio am swyddi gwag addas, yn unol â'n polisi Recriwtio a Dethol, neu os ydych yn gymwys, y Polisi Adleoli lle bernir eich bod 'mewn perygl'. Os byddwch yn llwyddiannus wrth gael cynnig swydd arall / cael eich adleoli mewn swydd arall, dylech geisio cadarnhad o'r buddion pensiwn sy'n daladwy. Os byddwch yn dymuno bwrw ymlaen â'r cais, rhaid ceisio cymeradwyaeth derfynol gan y Pennaeth Gwasanaeth presennol y gofynnir iddo gyflwyno Achos Busnes terfynol dros Ymddeoliad Hyblyg i'w gymeradwyo, yn unol â'r gweithdrefnau y cytunwyd arnynt.

Mae ymddeoliad hyblyg/graddol yn ôl ein disgresiwn ac felly nid oes hawl apelio pan na fydd cais yn cael ei gymeradwyo.

Fodd bynnag, lle na ellir cefnogi cais, dylai eich rheolwr llinell geisio cyngor gan y Tîm Adnoddau Dynol cyn cadarnhau hynny i chi, er mwyn sicrhau y rhoddwyd ystyriaeth resymol i'r cais ac er mwyn ymchwilio i ddatrysiadau posibl eraill.

**Sicrhau Triniaeth Gyfartal**

Rhaid arfer cysondeb yn y modd y gweithredir y polisi hwn mewn perthynas â'r holl weithwyr heb ystyried hil, lliw, cenedligrwydd (gan gynnwys dinasyddiaeth), tarddiad ethnig neu genedlaethol, iaith, anabledd, crefydd, cred neu ddiffyg cred, oedran [yn amodol ar reoliadau statudol], rhyw, hunaniaeth neu fynegiant rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, statws o ran cyfrifoldebau magu plant, statws priodasol na statws partneriaeth sifil, beichiogrwydd na mamolaeth.

Os oes gennych unrhyw bryderon cydraddoldeb ac amrywiaeth yng nghyswllt gweithredu'r polisi a'r weithdrefn, cysylltwch ag aelod o'r Tîm Adnoddau Dynol.

Os oes angen copi o'r wybodaeth hon arnoch mewn fformat arall (er enghraifft print bras), cysylltwch â Rheoli Pobl drwy ffonio estyniad 6184 neu drwy anfon e-bost at RPUnedCymorthBusnes@sirgar.gov.uk

**Atodiad 1**

# Ffeithlen Cronfeydd Pensiwn Cymru ynghylch Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2014
# Y Rheol 85 Mlynedd

**Pryd y gallaf ymddeol?**
Mae'r Oedran Pensiwn Arferol o dan Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2014 yn gysylltiedig â'ch Oedran Pensiwn y Wladwriaeth, a 65 yw'r isafswm oedran. Fodd bynnag, cewch ymddeol yn wirfoddol pan fyddwch yn 55 oed neu'n hŷn, ond gallai eich buddion gael eu lleihau yn actiwaraidd er mwyn ystyried y taliadau cynnar a wneir cyn eich Oedran Pensiwn Arferol.

**Beth yw'r Rheol 85 Mlynedd?**
Prawf yw'r rheol 85 mlynedd i asesu a fyddai buddion aelod yn cael eu lleihau, pe byddai'n ymddeol cyn cyrraedd yr Oedran Ymddeol Arferol. Os oedd oedran yr aelod a nifer blynyddoedd ei aelodaeth yn y Cynllun (a fesurir ill dau mewn blynyddoedd llawn) yn gyfanswm o 85 mlynedd neu ragor, **NI** fyddai buddion yr aelod yn cael eu lleihau. Os NA fodlonwyd y rheol hon, roedd lleihad llawn yn berthnasol o ran buddion yr aelod.

**Pryd y gwaredwyd y Rheol 85 Mlynedd?**
Ar 1 Hydref 2006, cafodd y Rheol 85 Mlynedd ei dileu o'r Rheoliadau. Os oeddech yn aelod gweithredol ar 30 Medi 2006, bydd peth neu'r cyfan o'ch aelodaeth wedi'i ddiogelu o dan y Rheol 85 Mlynedd. Os oedd y Rheol 85 Mlynedd yn berthnasol i chi, bydd yn parhau i fod yn berthnasol o 1 Ebrill 2014 ymlaen. Os gwnaethoch ymaelodi â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar 1 Hydref 2006 neu ar ôl hynny, NI fydd y Rheol 85 Mlynedd yn cael effaith ar eich amgylchiadau.

**A wyf wedi fy niogelu o dan y Rheol 85 Mlynedd?**
Os oeddech yn aelod gweithredol ar 30 Medi 2006 a'ch bod wedi dewis ymddeol cyn eich Oedran Pensiwn Arferol, a bod y Rheol 85 Mlynedd wedi'i bodloni, bydd rhywfaint o ddiogelwch gennych.
Os ganed chi **ar 31 Mawrth 1956 neu cyn hynny**, bydd yr holl fuddion a gronnwyd hyd at 31 Mawrth 2016 yn cael eu diogelu'n llawn. Bydd y buddion o 1 Ebrill 2016 ymlaen wedi'u lleihau am y cyfnod o'ch dyddiad gadael tan eich Oedran Pensiwn y Wladwriaeth.

Os ganed chi **ar/rhwng 1 Ebrill 1956 a 31 Mawrth 1960**, bydd yr holl fuddion a gronnwyd hyd at 31 Mawrth 2008 yn cael eu diogelu'n llawn, **OND** bydd y buddion a gronnwyd rhwng 1 Ebrill 2008 a 31 Mawrth 2020 yn cael eu lleihau ar sail 'daprog' am y cyfnod o'ch dyddiad gadael tan i chi gyrraedd eich 65 oed (yr oedran ymddeol arferol o dan Gynllun 2008). Bydd unrhyw fuddion a gronnir ar ôl 1 Ebrill 2020 yn cael eu lleihau'n **LLAWN** am y cyfnod rhwng eich dyddiad gadael a'ch Oedran Pensiwn y Wladwriaeth

Os ganed chi **ar 1 Ebrill 1960 neu ar ôl hynny**, bydd yr holl fuddion a gronnwyd hyd at 31 Mawrth 2008 yn cael eu diogelu'n llawn, **OND** bydd lleihad **LLAWN** yn berthnasol i'r buddion a gronnir o 1 Ebrill 2008 tan eich dyddiad gadael. O ran aelodaeth o 1 Ebrill 2008 tan 31 Mawrth 2014, bydd lleihad yn berthnasol am y cyfnod o'ch dyddiad gadael tan eich pen-blwydd yn 65 oed. Bydd lleihad yn berthnasol i'ch aelodaeth o 1 Ebrill 2014 am y cyfnod o'ch dyddiad gadael tan eich Oedran Pensiwn y Wladwriaeth.

**Faint o 'leihad' fydd?**
Bydd eich buddion yn cael eu lleihau yn unol â'r cyfarwyddyd a roddwyd gan Adran Actiwari'r Llywodraeth. Bydd y cyfnod o'ch dyddiad gadael tan yr oedran ymddeol priodol yn cael ei gyfrifo mewn blynyddoedd a diwrnodau, felly bydd canran y lleihad yn cael ei haddasu ar gyfer blynyddoedd rhannol. (Ffactorau ar 08/01/2019).

| Pa sawl Blwyddyn yn Gynnar | Pensiwn Blynyddol Lleihad | Lleihad Awtomatig i'r Cyfandaliad |
|---|---|---|
| 0 | 0% | 0% |
| 1 | 5.1% | 2.3% |
| 2 | 9.9% | 4.6% |
| 3 | 14.3% | 6.9% |
| 4 | 18.4% | 9.1% |
| 5 | 22.2% | 11.2% |
| 6 | 25.7% | 13.3% |
| 7 | 29.0% | 15.3% |
| 8 | 32.1% | 17.3% |
| 9 | 35.0% | 19.2% |
| 10 | 37.7% | 21.1% |
| 11 | 41.6% | 21.1% |
| 12 | 44.0% | 21.1% |
| 13 | 46.3% | 21.1% |

**A fydd y Rheol 85 Mlynedd yn berthnasol os ymddeolaf o 55 oed ymlaen?**
Gyda chyflwyno Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2014 o 1 Ebrill 2014, mae modd i chi ymddeol yn wirfoddol o 55 oed ymlaen (heb ganiatâd eich cyflogwr). Os dewiswch ymddeol yn wirfoddol rhwng 55 oed a 60 oed, **NI** fydd y diogelwch a roddir o dan y Rheol 85 Mlynedd yn berthnasol yn awtomatig ac felly caiff eich buddion eu lleihau'n **LLAWN**. Fodd bynnag, os dewiswch ymddeol yn 60 oed neu ar ôl hynny, **BYDD** y diogelwch o dan y Rheol 85 Mlynedd yn berthnasol. Yn ôl disgresiwn eich cyflogwr y mae modd defnyddio'r Rheol 85 Mlynedd yn achos ymddeol yn wirfoddol rhwng 55 oed a 60 oed. Bydd gan eich Cyflogwr bolisi ynghylch y mater hwn.

**Beth os caiff fy swydd ei dileu neu os bydd yn rhaid i mi ymddeol ar sail effeithlonrwydd?**
Os bydd eich cyflogwr yn dileu eich swydd neu os bydd yn rhaid i chi ymddeol ar sail effeithlonrwydd, a'ch bod yn 55 oed neu'n hŷn, bydd eich buddion yn cael eu talu ar unwaith **HEB** leihad.

**Rhagor o wybodaeth**
Arweiniad cyffredinol yn unig y mae'r ffeithlen hon yn ei roi. I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â'r canlynol:
Ffôn: **01267 224 043** E-bost: **pensiynau@sirgar.gov.uk**

**Atodiad 2**

**Ymddeoliad Graddol ar gyfer aelodau o'r Cynllun Pensiwn Athrawon**

Os ydych yn athro/athrawes digyswllt, gallwch ddymuno parhau i weithio a chodi rhywfaint o'r buddion pensiwn a gronnwyd gennych.

Mae ymddeoliad graddol o dan y Cynllun Pensiwn Athrawon yn caniatáu i chi benderfynu faint o'r buddion a gronnwyd yr ydych am eu derbyn, hyd at fwyafswm o 75% o'r holl fuddion. Dylech nodi bod hyn yn wahanol i 75% o'r buddion sydd ar gael yn ystod pob cam o'r ymddeoliad graddol. Os byddwch yn cymryd 75% o'ch buddion yn ystod cam cyntaf eich ymddeoliad graddol, bydd ymddeoliad graddol ar ôl hynny yn ystyried y buddion newydd, h.y. y rhai a gronnwyd eisoes ar adeg cam cyntaf yr ymddeoliad a'r croniad newydd yn ystod yr ymddeoliad graddol, a chymryd 75% o'r buddion hynny minws y 75% a gymerwyd eisoes i gyfrifo'r 'Pensiwn Ychwanegol' i'w dalu yn ystod ail gam y dyfarniad ymddeol. Os yw aelodau wedi cronni cyflog terfynol a buddion cyfartalog gyrfa, nid oes rhaid iddynt gael mynediad at y ddau fath o fuddion pan fyddant yn ymddeol yn raddol, h.y. gallent ddewis derbyn pensiwn yn unig o'u pensiwn cyflog terfynol neu i'r gwrthwyneb. Wrth gwrs, gallant ddewis cymryd buddion o'r ddau, yn amodol ar y mwyafswm o 75%.

Mae ymddeoliad graddol yn ddewis ymarferol, os dilynir canllawiau syml.

**Os bydd athro/athrawes digyswllt yn cyflwyno cais am ymddeoliad graddol**

1. Rhaid i'ch cyflog pensiynadwy ostwng o leiaf 20%, o gymharu â'ch enillion dros y chwe mis blaenorol, am o leiaf 1 flwyddyn ar ôl dyddiad yr ymddeoliad graddol, e.e. gallai hyn fod oherwydd bod eich oriau wedi lleihau, neu eich bod wedi derbyn swydd â llai o gyfrifoldeb (a thrwy hynny gyflog llai).
2. Gallwch ymddeol yn raddol, ac, yn dilyn toriad yn y gwasanaeth, ddechrau penodiad newydd mewn rôl gefnogol mewn sefydliad addysgol megis cynorthwyydd ystafell ddosbarth. Gall y penodiad newydd fod gyda'r un cyflogwr neu gyflogwr gwahanol ond mae'n rhaid iddo ddigwydd o fewn 6 mis i'r dyddiad y daeth y swydd flaenorol i ben.
3. Cewch ymddeol yn raddol os ydych yn cael bwlch mewn cyflogaeth ar yr amod nad oes mwy na chwe mis wedi mynd heibio ers i'ch swydd flaenorol ddod i ben.
4. Mae'n rhaid i'r cyflogwr sy'n gyfrifol am y trefniadau gweithio newydd lofnodi'r ffurflen gais ar gyfer ymddeoliad graddol ac mae'n rhaid cyflwyno'r cais o fewn tri mis ar ôl i chi ddechrau'r swydd.
5. Gall aelodau sydd wedi'u diogelu gymryd hyd at ddau ymddeoliad graddol cyn ymddeol yn derfynol. Gall aelodau o'r cynllun cyfartalog gyrfa gymryd hyd at dri ymddeoliad graddol cyn ymddeol yn derfynol, ond dim ond dau cyn 60 oed.

Fodd bynnag, o Ebrill 2015 bydd newidiadau i'r Cynllun Pensiwn Athrawon yn effeithio ar rai athrawon sydd â diddordeb mewn ymddeoliad graddol. Argymhellir eich bod yn edrych ar y wefan Pensiynau Athrawon i gael y wybodaeth ddiweddaraf cyn cyflwyno cais.

Gallwch gael ffurflen gais o'r ardal aelodau ddiogel, 'Fy Mhensiwn Ar-lein'. Gan y gofynnir i chi gwblhau nifer o gwestiynau a dewisiadau, mae'n rhaid i chi gymryd gofal wrth wirio eich bod wedi cwblhau'r holl adrannau perthnasol yn gywir. Gallwch asesu eich opsiynau, o ran

cyfnewid pensiwn am gyfandaliad, e.e. gan ddefnyddio'r modelwyr sydd ar gael ar 'Fy Mhensiwn Ar-lein'.

Bydd angen i chi gadarnhau'r canlynol:

- eich dyddiad arfaethedig ar gyfer ymddeol yn raddol;
- y dyddiad cychwyn a'r cyflog newydd a fydd yn cael ei dalu; a
- manylion y gwasanaeth a'r cyflog ers eich diweddariad gwasanaeth diwethaf neu o ddyddiad y gofynnwyd amdano gan Bensiynau Athrawon.

Os bydd unrhyw oedi o ran darparu'r wybodaeth, efallai na fyddwch yn derbyn eich buddion ar eich dyddiad ymddeol/talu. Dylid cyflwyno ceisiadau o leiaf dri mis cyn y dyddiad ymddeol arfaethedig, ond bydd unrhyw gais a dderbynnir dros chwe mis cyn y dyddiad ymddeol yn cael ei wrthod. Y rheswm am hyn yw bod manylion gwasanaethau a chyflogau yn gallu newid yn y cyfamser.

**Beth yw Oedran Pensiwn Arferol y Cynllun Pensiwn Athrawon?**
Mae'r oedran pensiwn arferol at ddibenion y Cynllun Pensiwn Athrawon yn dibynnu ar ba bryd yr oeddech wedi ymuno â'r cynllun. Os buoch yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Athrawon er 1 Ionawr 2007 65 oed fydd eich Oedran Pensiwn Arferol.

Fodd bynnag, os oeddech yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Athrawon cyn 1 Ionawr 2007 bydd eich oedran pensiwn arferol yn 60 - ar yr amod nad oes gennych fwy na phum mlynedd o fwlch yn eich gwasanaeth.

Os oes gennych fwy na phum mlynedd o fwlch yn eich gwasanaeth, bydd eich oedran pensiwn arferol yn parhau i fod yn 60 ar gyfer y gwasanaeth hyd at ddiwedd y bwlch, ond yn 65 ar gyfer unrhyw wasanaeth yn y dyfodol. At ddibenion pensiwn byddwch yn cael eich cyfrif yn 'aelod â gwasanaeth cymysg'.

Nodwch y newidiadau i'r Oedran Pensiwn Arferol sy'n weithredol o 1af Ebrill 2015: Ni fydd oedran pensiwn arferol (cyflog terfynol) yr aelodau yn newid o 1 Ebrill 2015. O 1 Ebrill 2015 bydd oedran pensiwn arferol (cyfartaledd gyrfa) aelod yn gyfartal ag oedran pensiwn y wladwriaeth neu'n 65 os yw hwnnw'n uwch. Gall gweithwyr gael golwg ar eu hoedran pensiwn y wladwriaeth drwy fynd i wefan y llywodraeth: www.gov.uk/calculate-state-pension

I gael y wybodaeth ddiweddaraf edrychwch ar: www.teacherspensions.co.uk